

Date • Dyddiad 25 Mawrth 2022
Your ref • Eich cyfeimod
My ref • Fy nghyfeimod SRD/KR
Telephone • Ffôn 01437 775861
Email • Ebost Steven.richards-downes@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk



Pembrokeshire County Council Cyngor Sir Penfro

WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr

STEVEN RICHARDS-DOWNES
*Director of Education
Cyfarwyddwr Addysg*

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Steven Richards-Downes

At: Rhieni a Gofalwyr

Annwyl Rieni a Gofalwyr

Heddiw, mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad 21 diwrnod. Yn ystod y cyhoeddiad hwnnw, dywedodd y Prif Weinidog **nad yw'r canllawiau i ysgolion wedi newid tan ddiwedd y tymor hwn.**

"Bydd ein canllawiau i ysgolion yn aros yr un fath tan ddiwedd y tymor ar 8 Ebrill 2022. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar drefniadau ar gyfer dychwelyd disgyblion ar ôl y Pasg.

Yn y cyfamser, dylai staff, dysgwyr ysgol uwchradd ac ymwelwyr mewn mannau cymunedol y tu allan i'r ystafell ddosbarth wisgo gorchuddion wyneb.

Mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith penderfynu lleol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. O ystyried lefelau cynyddol y feirws yn lleol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i fod yn gymedrol a byddant yn parhau fel hynny tan ddiwedd Tymor y Gwanwyn ar 8 Ebrill 2022.

Gofynnwn i chi barhau i gefnogi ysgolion gyda'r mesurau lliniaru y maent yn eu defnyddio.

Dywedodd y Prif Weinidog hefyd "Ynysu os oes gennych symptomau, yw un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud i atal heintiau rhag lledaenu a thorri'r cadwyni trosglwyddo – nid yn unig Covid-19 ond heintiau anadlol eraill hefyd." Dilynwch y cyngor hwn fel y gallwn gadw pob ysgol ar agor.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Darperir rhagor o fanylion am weithrediad ysgolion yn nhyrnor yr haf ar ddechrau
Tymor yr Haf.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus a chadw ein hysgolion ar agor a chadw'r dysgu
i fynd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Steven Richards-Downes". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping tail on the final letter.

Steven Richards-Downes
Cyfarwyddwr Addysg